



Cofnodion y CBC wedi'u cadarnhau
Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO)
04 Awst 2025 am 13:30 o'r gloch
Wyneb yn wyneb yn Charnwood ac ar Microsoft Teams

Aelodau:

Susan Elsmore (Cadeirydd)	(SE)	Cadeirydd QSO ac Aelod Lleyg, CBCGC
Shameem Nawaz	(SN)	Aelod Lleyg, CBCGC (Teams)
Mandy Rayani	(MR)	Is-gadeirydd QSO ac Aelod Lleyg, CBCGC

Hefyd yn Bresennol:

Carole Bell	(CB)	Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBCGC
Adrian Clarke	(AC)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC
Iolo Doull	(ID)	Cyfarwyddwr Meddygol, CBCGC
Matthew Edwards	(ME)	Ysgrifennydd Cynorthwyol Dros Dro y Pwyllgor, CBCGC
Sarah McMillan	(SM)	Nyrs Arweiniol Genedlaethol, Rhwydwaith Arennau Cymru [WKN] (Teams - hyd at ddiwedd Eitem 2.1)
Angela Mutlow	(AM)	Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, Llais
Rhodri Pyart	(RP)	Arweinydd Ansawdd WKN, Arenegwr Ymgynghorol BIP CaF, (Teams - hyd at ddiwedd Eitem 2.1)
Melanie Wilkey	(MW)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol, CBCGC

Yn Arsylwi:

Leanne Amos	(LA)	Cydllynydd Busnes, Ansawdd, CBCGC
Vicki Dawson-John	(VDJ)	Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau, CBCGC
Kirsty John	(KJ)	Arweinydd Ansawdd, CBCGC
Sian Lane	(SL)	Uwch-Nyrs Arweinydd, Ansawdd a Chyflenwi, CBCGC
Rhonwen Parry	(RP)	Cyfarwyddwr Clinigol Cyswllt ar gyfer Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC (mynychu ar gyfer eitem 3.1, yn unig)
Adele Roberts	(AR)	Pennaeth Ansawdd a Gofal Cleifion, CBCGC

Ymddiheuriadau:

Helen Tyler	(HT)	Pennaeth Llywodraethu a Risg, CBCGC
Phil Kloer	(PK)	Prif Weithredwr, BIP Hywel Dda (Teams)

Cofnodion:

Gareth Mitchell	(GM)	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, CBCGC
-----------------	------	---

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
QSO25/056	<p>1.1 Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd Susan Elsmore (SE), Cadeirydd y QSO, bawb i'r cyfarfod a gwnaed chyflwyniadau.</p> <p>Cydnabuwyd nad oedd yr un Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd Matthew Edwards (ME) y byddai'n trafod hyn gyda chydweithwyr perthnasol y tu allan i'r cyfarfod i sicrhau bod presenoldeb mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfod ar Microsoft Teams ac wyneb yn wyneb, a nodwyd bod cworwm wedi'i sicrhau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio at ddibenion gweinyddol.</p>
QSO25/057	<p>1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>
QSO25/058	<p>1.3 Datganiad o Fuddiannau Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiannau.</p>
QSO25/059	<p>1.4 Cofnodion y Cyfarfod Etifeddiaeth a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 a Materion sy'n Codi Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir o'r trafodaethau.</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion i'w trafod.</p>
QSO25/060	<p>1.5 Cofnod Gweithredu Derbyniwyd y cofnod gweithredu, a nododd yr aelodau'r chwe gweithred sydd heb eu cwblhau:</p> <ul style="list-style-type: none">• QSO25/009 – Mae disgwyl i'r derbynoldeb risg gael ei drafod yng Ngweithdy Strategaeth y Cyd-bwyllgor Comisiynu (JC) ym mis Rhagfyr 2025. Mewn perthynas â Risg 53, cydnabu Melanie Wilkey (MW) fod oedi cyn cael gwybodaeth gan ddarparwyr, mewn rhai achosion. Byddai hyn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod.• QSO25/012 – Roedd y camau sy'n ymwneud â Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN) wedi'u gohirio tan fis Hydref oherwydd gwyliau blynyddol.• QSO25/014 – Ystyriwyd y ddwy weithred sy'n ymwneud ag amseru adrodd risg a'r angen i adolygu ac adnewyddu'r broses adrodd risg. Nodwyd y byddai dull Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) at risg yn flaenoriaeth i Ysgrifennydd newydd y Pwyllgor.• QSO25/015 – Byddai cyflwyniad ar y fframwaith iechyd meddwl yn cael ei dderbyn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Nodwyd bod gofyn



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>am hyn hefyd i gael ei wneud yn eitem mewn cyfarfod yn y dyfodol o Uwch Dîm Arwain CBCGC.</p> <p>Nododd yr aelodau'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu agored QSO25/009 gan dynnu sylw at y ffaith bod y derbynioldeb risg wedi'i threfnu ar gyfer Gweithdy Strategaeth y JC ym mis Rhagfyr 2025.</p>
QSO25/061	<p>2.1 Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN)</p> <p>Derbyniodd yr Aelodau adroddiad WKN a roddai wybodaeth ar y materion ansawdd a diogelwch cleifion presennol o fewn y gwasanaethau a gomisiynwyd gan WKN.</p> <p>Cyflwynodd Sarah McMillan a Rhodri Pyart yr adroddiad. Nodwyd y canlynol gan yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Dau Ddigwyddiad a Adroddwyd yn Genedlaethol (NRIs) ychwanegol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys:<ul style="list-style-type: none">○ Pryderon ynglŷn ag adrodd am sgan tomograffeg gyfrifiadurol (CT) a gymerwyd ar ôl llawdriniaeth a'r defnydd o heparin systemig, roedd y rhain yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn casglu ffeithiau.○ Materion ansawdd data sy'n effeithio ar gofnodion atgyfeiriadau trawsblaniadau ar draws sawl canolfan. Mae gwaith cydweithredol ar y gweill i ddeall graddfa'r broblem, i nodi lefelau niwed ac i sicrhau bod cleifion yr effeithir arnynt yn cael eu nodi a'u cefnogi'n briodol. Roedd cyfarfod NRI wedi'i gynnal a chyfarfod arall wedi'i drefnu. Roedd y Rhwydwaith yn arwain ar y gwaith i gywiro'r data, i ddatblygu gweithdrefn weithredu safonol ac i baratoi dogfen gwersi a ddysgwyd. Byddai diweddariadau'n cael eu rhoi i'r Is-bwyllgor hwn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.• Rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â NRI blaenorol ar Organebau Cynhyrchu Carbapenemas, gyda chyfarfodydd achosion gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) wedi stopio oherwydd diffyg achosion newydd. Mae dogfen ganllawiau ar gyfer ynysu a sgrinio cleifion i fod i gael ei chwblhau.• Mae Cofrestr Risg WKN yn cael ei hadolygu'n rheolaidd trwy wahanol grwpiau WKN. Roedd saith risg wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Comisiynu ac roedd un risg ychwanegol wedi'i hychwanegu yn ystod y cyfnod diwethaf yn ymwneud â chynaliadwyedd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau arenau yng Ngogledd Cymru. Roedd gan un o'r risgiau sgôr risg dros 15 ac felly cafodd ei chynnwys yng Nghofrestr Risg CBCGC [Cyfeirnod 65 CBCGC, Cyfeirnod 18 WKN).



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none">• Cadarnhawyd bod rheolaethau ar waith, gan gynnwys defnyddio cyllid ychwanegol, yn ymwneud â'r ymgais i gynyddu nifer y cleifion trawsblaniad a dialysis cartref. Cytunwyd ar newidiadau i Lwybrau Gofal Iechyd Cymunedol Cymru Gyfan ar gyfer Clefyd Cronig yn yr Arennau ac mae datblygu cynlluniau gweithredu rhanbarthol ar gyfer cynyddu nifer y cleifion ar gyfer dialysis cartref ar y gweill. Roedd y cynnydd mewn capasiti dialysis unedau'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol yn y Trallwng (a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ac Uned Dialysis ym Mhen-y-bont ar Ogwr gydag un ar hugain o orsafoedd (a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe). <p>Cadarnhawyd bod y "canllawiau ar reoli ymddygiad sy'n herio gwasanaethau dialysis" fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad, wedi'u cynhyrchu gan Gymdeithas Arennau y DU. Roedd hyn yn ymwneud â'r straen yr oedd cleifion yn aml oddi tano yn ystod triniaeth, sy'n arwain weithiau at ymddygiad ymosodol gan gleifion, ac roedd y canllawiau i helpu staff reoli a thawelu'r sefyllfaoedd heriol hyn.</p> <p>Cam gweithredu: WKN i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion ansawdd data a adroddwyd amdanynt mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.
QS025/062	<p>3.1 Gwasanaeth Rhywedd Plant a Phobl Ifanc - De Orllewin</p> <p>Rhodddwyd cyflwyniad gan Julie Alderson (JA), Cyfarwyddwr Clinigol ac Eloise Wyke (EW), Rheolwr Rhaglen Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru.</p> <p>Nodwyd y canlynol gan yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cau'r Gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhywedd yn Ymddiriedolaeth Tavistock a Portman ar 31 Mawrth 2024• Lansio gwasanaeth dros dro ym mis Ebrill 2024 gan ddarparu'r Cam 1 (Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Manceinion, Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG De Llundain a Maudsley ac Ysbytai Athrofaol Bryste ac Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Weston)• Roedd Adolygiad Cass terfynol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024 yn cynnwys 32 o argymhellion ar gyfer gwasanaethau rhywedd plant a phobl ifanc• Roedd gwasanaeth y De-orllewin wedi'i leoli ar draws nifer o leoliadau cleifion allanol presennol Ysbytai Athrofaol Bryste a Weston (UHBW) gyda chynllun i ddefnyddio lleoliadau clinigol ac ymgynghori ar draws rhanbarth y De-orllewin a Chymru



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none">• Bod cleifion wedi cael eu gweld yng Nghanolfan Plant Llandochoau mewn cyfuniad o apwyntiadau cyntaf a gweithgareddau dilynol ers mis Ebrill 2025• Y garfan cleifion ddiffiniedig yw plant a phobl ifanc hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed sydd â phryderon ynghylch anghydweddiad rhywedd sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas ac arbenigedd gwasanaethau lleol.• Mai dim ond gwasanaeth paediatrig lefel gofal eilaidd neu wasanaeth iechyd meddwl Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a gomisiynwyd gan y GIG y gallai atgyfeirio i'r rhestr aros genedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Rhywedd Plant a Phobl Ifanc arbenigol. Nid oedd asiantaethau eraill gan gynnwys meddygon teulu, gofal cymdeithasol plant ac ysgolion bellach yn gallu cyfeirio'n uniongyrchol ar y rhestr aros ar gyfer Gwasanaethau Rhywedd Plant a Phobl Ifanc• Yn dilyn yr Adolygiad Cass terfynol, datblygwyd fframwaith cyfannol newydd sy'n cynnwys:<ul style="list-style-type: none">○ Aseiad bio-seicogymdeithasol manwl○ Ymgynghoriadau ar y cyd ac unigol○ Adroddiadau a gwybodaeth gan y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol ac ysgolion○ Llunio○ Adborth a chynllunio gofal• Roedd y gwaith cynnwys y cleifion a'r cyhoedd (PPI) ar y gweill. Roedd Arweinydd Clinigol PPI wedi'i nodi o fewn y gwasanaeth ac roedd holiadur cleifion allanol gwasanaeth wedi'i ddatblygu a'i lansio ym mis Gorffennaf 2025. Datblygwyd lansiad meddal o ffurflen atgyfeirio ar gyfer cyflwyno diddordeb i ymuno â PPI ym mis Gorffennaf 2025. Cwblhawyd sesiwn datblygu clinigol gyda'r tîm yn trafod pwysigrwydd PPI ystyrlon a'r broses ar gyfer cyfeirio syniadau a phobl ifanc• Mai dymuniad y gwasanaeth oedd ymgysylltu a recriwtio person ifanc i ymuno â'r Bwrdd Partneriaeth yn dilyn lansio PPI o fewn y gwasanaeth• Mae pedwar ar ddeg o bobl ifanc o Gymru wedi cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth gyda phum teulu wedi cael eu gweld yn y Ganolfan Plant yn Ysbyty Llandochoau. <p>Diolchodd y cadeirydd i JA ac EW am eu cyflwyniad ac agorodd y llawr i sylwadau a chwestiynau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gofynnodd Shameem Nawaz (SN) pa gefnogaeth y mae cleifion yn ei derbyn yn yr achosion lle maent wedi defnyddio darparwyr preifat yn y gorffennol. Cadarnhaodd JA fod cleifion yn dal i gael eu cefnogi ond bod angen deall i ba raddau y maent wedi derbyn cefnogaeth yn y gorffennol (h.y. a ydynt wedi cael



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>meddyginiaethau, beth oedd y meddyginiaethau hyn ac ati). Roedd cleifion yn dal i gael eu cefnogi trwy'r rhaglen</p> <ul style="list-style-type: none">• Diolchodd Carole Bell (CB) i EW a JA am y cyflwyniad a chydnabu'r gwaith a wnaed. Gofynnodd CB pa fetrigau perfformiad oedd yn cael eu hadrodd yn ôl i NHS England a pha wybodaeth oedd yn cael ei chasglu at ddibenion sicrwydd a meincnodi. Cadarnhaodd EW fod gwaith ar y gweill gyda chanolfannau eraill i ddatblygu metrigau ansawdd a pherfformiad allweddol gyda'r nod o sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei hadrodd gan y gwahanol ganolfannau i NHS England. Cadarnhaodd EW hefyd fod gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosfwrdd cenedlaethol i alluogi meincnodi haws• Cadarnhaodd EW a JA fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i ategu gan y fframwaith cyfannol ar gael ar hyn o bryd i'w ymgysylltu. Gofynnodd Angela Mutlow (AM) a oedd yr ymgynghoriad hwn ar agor, cadarnhaodd JA fod hyn yn wir ac yn agored i'r holl randdeiliaid a oedd yn rhan o'r rhaglen. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon yr ymgynghoriad at y mynychwyr. <p>Awgrymodd CB y dylid dod â hyn yn ôl, gyda stori claf ychwanegol a ffocws ar y trawsnewidiad o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, fel stori claf ar gyfer cyfarfod JC yn y dyfodol. AC i drefnu hyn gyda'r gwasanaeth.</p> <p>Cam gweithredu: AC i drefnu cyflwyniad gyda stori claf a ffocws ar drawsnewid i wasanaethau oedolion ar gyfer cyfarfod JC yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi stori'r claf.
QSO25/063	<p>4.1 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu - Risgiau a Neilltuir i'r Is-Bwyllgor QSO</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad sy'n cyflwyno risgiau a neilltuwyd i QSO ar 30 Mehefin 2025 gan y mynychwyr. Nodwyd y canlynol gan yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• 18 risg gyda'r sgôr o 15 ac uwch gyda 11 wedi'i neilltuo i QSO a 7 wedi'i neilltuo i'r Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF)• Roedd yr 11 risg yn risgiau comisiynu ar draws y portffolio, heb unrhyw risgiau corfforaethol neu sefydliadol• Roedd y gwaith hwnnw i ddatblygu'r strategaeth rheoli risg a'r fframwaith sicrhau risg yn flaenoriaeth i'r CBCGC a byddai'n flaenoriaeth i Ysgrifennydd newydd y Pwyllgor unwaith y byddant yn y swydd.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Risg 53 – Gofynnodd Mandy Rayani (MR) a oedd hyn yn risg recriwtio'n unig neu'n risg ariannol. Cadarnhaodd Melanie Wilkey (MW) fod hyn yn ymwneud â safonau a'r gallu i recriwtio i fodloni safonau ond ei fod, yn y pen draw, yn risg ariannol. Felly, gofynnwyd a ddylid derbyn hyn yn Is-bwyllgor y PPF.• Risg 55 – Roedd y gofrestr risg wedi'i diweddarau ond nid oedd y risg ei hun wedi'i diweddarau oherwydd ei bod yn gysylltiedig â Cham 1 o'r gwaith newyddenedigol, nad oedd wedi'i gyflawni eto. Roedd angen eglurder ynghylch sut roedd y risg hon yn gysylltiedig â gwaith Adolygiad Newyddenedigol Llywodraeth Cymru (LIC).• Risg 56 – Rhoddwyd eglurhad ynglŷn â Rheoli Heintiad Newyddenedigol gan nodi nad oedd hyn wedi'i ddad-ddwysáu oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r cynnydd cyffredinol yn y gwasanaeth. Roedd gwaith yn cael ei wneud i edrych ar ddatgysylltu hyn. O ran cynnydd y gwasanaeth, dywedodd CB fod sicrwydd wedi'i dderbyn gan BIP CaF ynghylch y mesurau yr oeddent wedi'u cymryd i wella'r sefyllfa a'r monitro parhaus a oedd bellach yn digwydd. Felly, efallai y bydd y risg hon yn cael ei gau yn y dyfodol• Yr angen i fod yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am y risg, wrth weithio gyda darparwyr. <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad• Ystyried a chraffu ar y risgiau a neilltuwyd ar ran CBCGC• Rhoi sicrwydd ymlaen i'r JC ynghylch rheoli'r risgiau'n effeithiol.
QS025/064	<p>5.1 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol</p> <p>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Arbenigol. Cyflwynodd Melanie Wilkey (MW) yr adroddiad. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r gofrestr risg yn adlewyrchu risg newydd sy'n ymwneud â'r gwasanaethau trawsblannu gwaed a mêr esgyrn (BMT) a Therapi Celloedd T Derbynnnydd Antigen Chimerig (CAR-T) (therapi uwch ar gyfer canser y gwaed) ar gyfer poblogaeth De Cymru a ddarperir gan BIP CaF. Roedd y risg hon wedi codi oherwydd nad oedd y cyfleusterau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn bodloni'r safonau a osodwyd gan y corff achredu, Cyd-bwyllgor Achredu ISCT EBMT (JACIE), roedd yr ymweliad achredu JACIE nesaf i fod ym mis Medi. Ar gyfer y gwasanaeth BMT, byddai dau opsiwn mewn egwyddor, atal y gwasanaeth a chyfeirio cleifion at



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>ganolfannau amgen (achrediad JACIE) neu barhau i gomisiynu gan BIP CaF fel gwasanaeth heb ei achredu. Ar gyfer y gwasanaeth CAR-T, os nad oedd gan y ganolfan achrediad, byddai'r cwmnïau fferyllol yn tynnu cyflenwad o'u cynhyrchion yn ôl a byddai'r gwasanaeth yn cael ei atal. Roedd CBCGC a BIP CaF yn gweithio ar y cyd i liniaru'r risg o golli statws achrediad JACIE ac i gynghori Llywodraeth Cymru ar y goblygiadau i'r gwasanaeth a'r cleifion. Nododd yr aelodau fod cyfarfod i fod i gael ei gynnal gyda'r gwasanaeth ar 7 Awst 2025.</p> <p>Cam gweithredu: Diweddariad i'w roi ar ganlyniad y cyfarfod.</p> <ul style="list-style-type: none">• Arhosodd Llawfeddygaeth Gordewdra yn Ysbyty Brenhinol Salford ar Lefel 3 oherwydd pryderon hirdymor gyda'r rhestr aros a'r lefelau gweithgaredd. Nid oedd y darparwr yn ymgysylltu â'r CBCGC ac, o ganlyniad, mae hyn wedi'i gyfeirio i'r Prif Swyddog Gweithredol. Roedd cyfarfod gyda phrif gomisiynydd y darparwr yn cael ei drefnu. Nododd yr aelodau'r effaith seicolegol y gallai hyn ei chael ar gleifion sy'n aros ar y rhestr aros. <p>Cam gweithredu: CB/MW i siarad â Huw George i ysgrifennu at y Bwrdd Gofal Integredig i uwchgyfeirio'r mater yn ffurfiol.</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd y Gwasanaeth Dyfeisiau Mewnblaniad Clywedol Arbenigol wedi bod yn destun heriau staffio parhaus, gan arwain at risg nad oedd cleifion De Cymru sydd angen Mewnblaniad Cochlear neu Fewnblaniad Clyw Dargludiad Esgyrn yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth mewn modd amserol. Cyfarfu'r CBCGC â BIP CaF ar 26 Mehefin 2025 i barhau â'r trafodaethau, roedd newidiadau i bersonél y bwrdd llawfeddygol wedi'u hamlygu ac roedd gwaith i drafod maint cywir y gwasanaeth yn cael ei drefnu.• Roedd yr Uned Llosgiadau Paediatrig yn Abertawe wedi cau dros dro ar ddau achlysur (am 4 diwrnod a 2 ddiwrnod yn y drefn honno) ym mis Gorffennaf oherwydd salwch staff. Roedd hyn yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid diweddar o'r gwasanaeth gan Rwydwaith Gofal Llosgiadau De Cymru (SWBCN) a gododd gynaliadwyedd y model nyrsio ar gyfer y gwasanaeth paediatrig fel pryder, er na chanfu unrhyw bryderon difrifol. Roedd y SWBCN wedi ysgrifennu at BIPBA i hysbysu bod cadernid nyrsio paediatrig bellach yn bryder difrifol ac wedi gofyn am amlinelliad o liniaru a bwriadau o fewn 10 diwrnod a chynllun gweithredu y cytunwyd arno o fewn 30 diwrnod. Trafododd yr aelodau rôl y CBCGC i gefnogi'r gwasanaeth o safbwynt comisiynu ac i gynorthwyo mewn unrhyw newidiadau i'r model a fyddai'n codi.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none">Roedd briff gwylio yn cael ei gadw mewn perthynas â'r materion sy'n ymwneud â llawdriniaeth Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydweiliau Coronaidd Robotig a llawdriniaeth Mini Mitral yn Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl. Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw gleifion o Gymru wedi'u heffeithio. <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodi'r diweddariadau comisiynu arbenigol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn, aNodi'r crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd ac uwchgyfeirio yn ôl yr angen.
QS025/065	<p>5.2 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Ambiwlans Gwasanaethau a 111</p> <p>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Ambiwlans a gwasanaethau 111. Cyflwynodd Ross Whitehead (RW) yr adroddiad. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Aeth Fframwaith Perfformiad Ambiwlans Brys newydd yn fyw (ar 1 Gorffennaf 2025). Sicrhodd cyflwyno categorïau Porffor a Coch fod y cleifion mwyaf difrifol wael yn cael yr ymateb cyflymaf, mwyaf priodol. Roedd arwyddion cynnar bod y model newydd yn gweithio fel y rhagwelwyd, gyda disgwyl i adrodd ffurfiol ar berfformiad ddechrau ddiwedd mis Awst 2025. Nododd yr aelodau'r gwaith i sefydlu metrigau clinigol ehangach (y bwriad yw cyhoeddi'r rhain ym mis Hydref yn ôl-weithredol ar gyfer tri mis cyntaf y cynllun peilot). Byddai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn penodi gwerthuswr allanol ar gyfer y model hwn, gyda threfniadau caffael ffurfiol yn parhau.Roedd oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng sifftiau ambiwlans wedi parhau i effeithio ar ofal amserol, gyda risgiau o niwed i gleifion sy'n aros yn y gymuned, sefydlwyd y Tasglu Trosglwyddo dan arweiniad clinigol ar 1 Gorffennaf 2025 i arwain ar welliant yn y maes hwn ac roedd gostyngiadau ystyrlon wedi'u cofnodi ledled Cymru.Roedd y pwysau ar gapasiti'r Gwasanaeth Cludiant Di-frys i Gleifion (NEPTS) yn effeithio ar fynediad amserol at gludiant ar gyfer apwyntiadau wedi'u cynllunio, gofal gwell a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Nododd yr Aelodau fod y Cyd-bwyllgor a'r Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol wedi cydnabod y pwysau sylweddol a oedd ar y gwasanaeth oherwydd y galw cynyddol (yn enwedig dialysis arenol) a bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn gan gynnwys adolygiad yr amserlen sifftiau, trafodaethau ynghylch hawl ac adolygu paramedrau perfformiad. Trafododd yr aelodau bryderon y gallai cleifion orfod aros yn



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>hirach am gludiant neu efallai y byddant yn cyrraedd eu hapwyntiadau yn rhy gynnar. Eglurodd RW y byddai hyn yn cael ei ystyried gyda'r darparwr, yn ogystal ag effaith addasiadau bach ar gapasiti gwasanaeth. Nododd yr aelodau bryderon cleifion a dderbyniwyd gan Llais ynghylch apwyntiadau Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cael eu canslo'r noson cyn eu hapwyntiadau ysbyty.</p> <p>Cam gweithredu: RW ac AM i drafod pryderon cleifion a dderbyniwyd y tu allan i'r cyfarfod.</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd y gwasanaeth 111 dan bwysau oherwydd y galw cynyddol, fodd bynnag, roedd cyfleoedd i wella wedi'u nodi. Trafododd yr aelodau'r wefan hen ffasiwn a'r offer gwirio symptomau a'r gwaith i liniaru elfen o'r risg hon, gan nodi bod y CBCGC wedi sicrhau cyllid anghylchol yn ddiweddar o'r rhaglen Chwe Nod i gefnogi'r gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.• Roedd apêl Adolygiad Barnwrol Y Gwasanaeth Adalw a Throsoglwyddo Meddygol Brys wedi'i wrthod. <p>Trafododd yr aelodau faterion amseru ynghylch adfer data o ansawdd sy'n ymwneud â gwasanaethau ambiwlans, cydnabu RW hyn a chadarnhaodd fod gwaith wedi dechrau i greu fframwaith cyson a fyddai'n lliniaru'r materion hyn.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi cynnwys yr Adroddiad Ansawdd a Diogelwch; a• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QS025/066	<p>5.3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed</p> <p>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Newid. Cyflwynodd Adrian Clarke (AC) yr adroddiad. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r CBCGC wedi cwblhau eu hadolygiadau i Ofal Iechyd St Andrew's yn ddiweddar ac wedi canfod nifer o broblemau ansawdd a diogelwch posibl. Yn ogystal â hyn, nododd yr aelodau ddigwyddiad difrifol diweddar yn ymwneud â chlaf o Gymru o fewn un o'r uned dan glo canolig ar y safle a honiad o atal amhriodol ac ymosodiad posibl ar y claf gan staff, roedd y digwyddiad hwn wedi arwain at 17 aelod o staff yn cael eu hatal o'r gwasanaeth. Trafododd yr aelodau: <ul style="list-style-type: none">• Yr angen i barhau i fonitro'r sefyllfaoedd uchod



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none">• Y nifer fawr o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd eisiau mynychu'r cyfarfod yng Nghlinig Caswell i fynegi eu pryderon i'r CBCGC.• Y pryder ynghylch yr amgylchedd ar y safle a'r diffyg tystiolaeth o weithgareddau ar gyfer y cleifion• Y pryderon ynghylch y diffyg cynnydd mewn perthynas â cheisiadau Ystadau a'r risgiau a gyflwynwyd gan hyn• Y diffyg ymyriadau clinigol oedd yn digwydd yn ystod yr ymweliad• Yr angen i sicrhau nad yw staff yn colli sgiliau <p>• Mae'r grwpiau goruchwylio a sefydlwyd gyda phresenoldeb CBCGC mewn perthynas â'r digwyddiad uchod a bod holl gleifion Cymru (ac Ynys Manaw, hefyd ar y Fframwaith) ar y safle wedi cael eu gweld gan staff CBCGC</p> <p>• Yr ymweliad safle a drefnwyd i'r uned cleifion mewnol amenedigol yn Ysbyty Tonna ac i Glinig Caswell ar 28 Gorffennaf 2025. Mynychwyd hyn gan SE, MR, SN, AC a Lee Leyshon</p> <p>• Y materion amgylcheddol a chyfleusterau yn yr uned yn Ysbyty Tonna, gyda'r gwasanaeth wedi methu achrediad Canolfan Gwella Ansawdd Coleg Brenhinol Seiciatreg oherwydd problemau rheoli tymheredd yn ystafelloedd gwely cleifion</p> <p>• Roedd amgylchedd Clinig Caswell yn siomedig ac yn bryderus, yn enwedig yr ardd, trefniadau larwm personol i staff, adroddiadau nad oedd staff clinigol ar gael a swyddi nad oeddent yn cael eu hail-lenwi pan oeddent yn wag. Byddai AC yn codi hyn gyda BIPBA. Nododd yr aelodau fod y tîm Fframwaith wedi bod i Glinig Caswell ers hynny i gynnal adolygiadau cleifion a bod y CBCGC yn edrych i gynnal adolygiadau blynyddol ar y safle gyda'r nod o gael golwg fanwl ar y ddarpariaeth gwasanaeth. Roedd disgwyl i gydweithwyr o Glinig Caswell fynychu cyfarfod CCLG y mis hwn</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd disgwyl i uned Gogledd Cymru agor ym mis Rhagfyr 2025 gyda'r CBCGC yn comisiynu dau wely• Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) bellach wedi cwblhau eu hymchwiliad i'r toriad diogelwch yn Nhŷ Llewellyn tua 2 flynedd yn ôl. Roedd nifer o welliannau ac argymhellion wedi'u gwneud a byddent yn cael eu hystyried yn ystod adolygiad nesaf y CBCGC o'r gwasanaeth. Cyfarfu Cyfarwyddwr Dros Dro Tîm Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed (MHLDVG) y CBCGC â thîm gweithredol BIPBC ar gyfer iechyd meddwl ar 25 Gorffennaf 2025 i drafod materion meddiannaeth, meini prawf cymhwysedd (tebyg i Glinig Caswell) er mwyn rhoi sicrwydd i'r JC. <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr angen i barhau i fonitro'r sefyllfaoedd uchod



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none">• Y nifer fawr o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd eisiau mynychu'r cyfarfod yng Nghlinig Caswell i fynegi eu pryderon i'r CBCGC• Y pryder ynghylch yr amgylchedd ar y safle a'r diffyg tystiolaeth o weithgareddau ar gyfer y cleifion• Y pryderon ynghylch y diffyg cynnydd mewn perthynas â cheisiadau Ystadau a'r risgiau a gyflwynir yn sgil hyn• Y diffyg ymyriadau clinigol oedd yn digwydd yn ystod yr ymweliad• Yr angen i sicrhau nad yw staff yn colli sgiliau. <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QS025/067	<p>5.3 Adroddiad Digwyddiadau a Phryderon</p> <p>Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu crynodeb o bryderon a digwyddiadau a adroddwyd i'r CBCGC gan ddarparwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd. Cyflwynodd CB yr adroddiad. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y 14 digwyddiad newydd• Ar hyn o bryd mae digwyddiadau a adroddwyd trwy Perfformiad a Gwelliant y GIG (yn benodol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru) yn cael eu gweithio drwyddynt, gan gynnwys yr angen i ddeall cyfrifoldebau'r sefydliad yn erbyn cyfrifoldebau'r darparwr• Roedd dau ddigwyddiad yn ymwneud â Gwasanaethau Cardiaidd bellach wedi'u cau• Roedd deg cwyn newydd wedi dod i law: roedd tri wedi cau ac roedd saith yn parhau ar agor. Disgwylid i'r rhain gael eu cau cyn y cyfnod adrodd ar gyfer Llywodraeth Cymru.• HCP25-06-006 yn ymwneud â phryderon Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cadarnhaodd CB fod nhw wedi cysylltu gyda'r claf yn uniongyrchol. Roedd y claf yn hapus gyda'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn allan o Fryste ac ni fyddai'n mynd â'r gŵyn ymhellach. Trafododd yr aelodau dderbyn hyn fel stori claf mewn cyfarfod yn y dyfodol. <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a• Derbyn yr adroddiad er sicrwydd.
QS025/068	<p>5.4 Adroddiad y Rheoleiddiwr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) / Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)</p> <p>Rhodddwyd diweddariad ar weithgaredd rheoleiddio. Nododd yr aelodau'r diweddariadau gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar amrywiol wasanaethau a nodwyd y cydweithio</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>parhaus ag AGIC i wella prosesau adrodd a sicrwydd. Cyflwynodd CB yr adroddiad. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y cyfeiriad at safle Eglwys Sant Andreas (sydd eisoes wedi'i drafod o dan Eitem 5.3 ar yr Agenda) gydag eglurhad bod y materion yn gysylltiedig â safle Northampton yn benodol• Bod y sefyllfa Fframwaith Iechyd Meddwl bellach yn cael ei adrodd. <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a• Derbyn yr adroddiad er sicrwydd.
QSO25/069	<p>6.1 Blaengynllun Busnes 2025-2026 Nododd yr Aelodau'r blaengynllun busnes a bod amserlen cyfarfodydd CBCGC ar gyfer 2026-27 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.</p>
QSO25/070	<p>7.1 Unrhyw Fater Arall Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.</p>
QSO25/071	<p>7.2 Eitemau i'w gohirio/eu huwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol Ystyriodd yr aelodau y dylid tynnu sylw at y materion canlynol yn Adroddiad Cryno QSO i'r JC:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyflwyniad Gwasanaethau Rhywedd – diweddariad yn adroddiad y cadeiryddion a chyflwyniad wedi'i ddiweddarau i'w wneud ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y JC.• Cofrestr risg – mae angen gwaith parhaus yn ymwneud â'r gofrestr a'r amserlenni.• Clinig Caswell – pryderon difrifol ynghylch yr amgylchedd i'w cynnwys yn Adroddiad y Cadeirydd.
QSO25/072	<p>7.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Daeth y cyfarfod i ben am 15:45 Cafodd y cyfarfod nesaf ei drefnu ar gyfer 06 Hydref 2025.</p>